


Trosolwg o'r adran Cyfryngau, Celfyddydau Creadigol, Coleg Menai

Lleolir yr adran Cyfryngau - sydd yn rhan o'r maes rhaglen Celfyddydau Creadigol - ar safle Llangefni ac mae'n cynnig dewis eang o gyrсияu Cyfryngau, Teledu a Ffilm, Technoleg Gwybodaeth a Datblygu Gemau ar Lefelau 2 a 3.



Mae'r adran yn ymfalchio yn y cyfleusterau modern o safon ddiwydiannol a ddefnyddir i ddarparu cwricwlwm a chyfleoedd allgyrsiol eang. Mae cyswllt agos rhwng yr adran â'r gymuned a chyflogwyr lleol. Mae briffiau byw yn greiddiol i'r gyrсияu Teledu a Ffilm a Chyfryngau ac mae'r rhain yn seiliedig ar friffiau 'bywyd go iawn' ar gais cyflogwyr neu fudiadau cymunedol sy'n galluogi'r dysgwyr greu nifer helaeth o ffilmiau byrion, gwreiddiol yn ystod y flwyddyn academiaidd. Mae'r adran a'i myfyrwyr yn llwyddiannus tu hwnt. Yn 2020, enillodd yr adran wobwr Aur ar gyfer Dylunio Gwefannau yng Ngwobrau Sgiliau Cymru

Mae Coleg Menai yn gweithio mewn partneriaeth strategol â'r National Film and Television School (NFTS). Fel rhan o'r cyfleoedd sy'n deillio o'r bartneriaeth yma bydd yr ymgeisydd llwyddiannus, a thîm dysgu Coleg Menai, yn derbyn cyfres o hyfforddiant blynyddol gan arbennigwyr o'r diwydiant er mwyn mireinio eu sgiliau ymhellach. Bydd cyfle hefyd i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu gwersi meistr ac ymweld ag ysgol NFTS yn flynyddol gyda'r dysgwyr, gan glywed gan arbennigwyr blaengar yn y diwydiant am y datblygiadau diweddaraf yn y maes.

Mae gan yr adran berthynas agos â chwmni teledu Rondo a byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn ran o brosiect cyffrous sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr Cyfryngau Creadigol, Teledu a Ffilm, Harddwch a Thrin Gwallt ddod ynghyd i greu cynhyrchiad arbennig a chael profiad a mewnwelediad i fywyd ar y set yn ogystal â chreu cysylltiad â'r diwydiant a chyflogwr lleol.


Am bwy rydym ni'n chwilio?

Mae'r Coleg yn awyddus i benodi unigolyn rhagweithiol i ymuno ag adran flaengar sy'n gobeithio sicrhau rhagor o lwyddiant i'w dysgwyr a chynyddu'r pwyslais ar brofiadau real yn y cwricwlwm. Rhaid i'r unigolyn ddangos ymroddiad i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol drwy ddefnyddio TGCh a dulliau addysgu arloesol gan fod yn gyfarwydd hefyd â dulliau addysgu profedig. Rhaid wrth broffesiynoldeb wrth fynd ati i gefnogi dysgwyr.

Yn ogystal â'r dysgu a'r addysgu, mae'r rôl yn cynnwys cyfleoedd i arwain rhaglenni a'r cyfle i addasu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol.

Overview of the Creative Arts - Media department at Coleg Menai

The Media department - which is part of the Creative Arts programme area - is located on our Llangefni campus. It includes a wide range of Media, TV & Film, Information Technology and Games Development courses, at levels 2 and 3.



The department takes pride in its modern and industry standard facilities that support a broad curriculum and extracurricular opportunities. The department works closely with the local community and with employers. Live briefs are at the heart of the TV & Film and Media courses and these 'real life briefs' are based on employers or local community organisations' requests. This allows learners to iterate and create a high number of original, short films during the academic year. The department and its students are very successful. In 2020, the department won the Gold award for Designing Websites in the Wales Skills Competition.

Coleg Menai works as a strategic partner of the National Film and Television School (NFTS). As part of the opportunities that arise from the partnership, the successful applicant and the teaching team would receive a series of annual training from leading experts in the industry to further refine their skills. The successful applicant would also be able to attend masterclasses and visit the NFTS school annually with the students, hearing from professionals in the industry about the latest developments.

The department works closely with the local television company, Rondo, and the successful candidate would be a part of an exciting project that gives the opportunity for Creative Industry, TV and Film, Hair and Beauty learners all to come together to create an unique production and to gain valuable work experience and an insight into life on set as well as creating links with a local employer.

Who are we looking for?

The College is looking to appoint a proactive person to join a forward thinking department looking to build on its learner success and to strengthen the focus on real life experiences in the curriculum. The individual must show a commitment to create a positive learning environment through innovative learning methods and ILT yet be familiar with proven teaching styles and possess a professional approach to supporting learners.

In addition to the teaching and learning, the role includes programme leadership and the chance to shape the provision to meet learner expectations and the needs of local employers.